

Cyfeirnod: IR910

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ebrill 2024

Gohebiaeth Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 13 Chwefror 2024, a oedd am *"gopi o'r holl ohebiaeth (gan gynnwys negeseuon e-bost) a anfonwyd rhwng Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd o 31 Mawrth 2021 hyd at 13 Chwefror 2024"*.

Er bod gennym nifer sylweddol o ddeunydd sy'n dod o fewn cwrdd eich cais, ond rwy'n cadw'r wybodaeth honno'n ôl am y rhesymau canlynol:

Byddai'r wybodaeth, pe bai'n cael ei datgelu, yn debygol o niweidio swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwilio. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn annog pobl i beidio â chydweithredu ag archwilydd. Mae angen cydweithredu o'r fath i gynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol. Felly, mae'r wybodaeth yn dod o fewn yr eithriad a ddarperir gan Adran 33 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (swyddogaethau archwilio). Mae diddordeb y cyhoedd mewn gwybodaeth gyhoeddus ehangach am waith archwilydd y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae budd y cyhoedd o gynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol drwy osgoi colli cydweithrediad a fyddai'n codi wrth ddatgelu yn fwy na'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth ddatgelu. Felly, rwyf wedi penderfynu bod cydbwysedd budd y cyhoedd yn golygu y dylid cynnal yr eithriad a ddarperir gan Adran 33. Mae deunyddiau sydd wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r ohebiaeth e-bost sy'n dod o fewn cwrdd eich cais, er enghraifft barn archwilio a'r adroddiad er budd y cyhoedd, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor a gwefan Archwilio Cymru yn y drefn honno, ac felly maent ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd ac wedi'u heithrio rhag cael eu datgelu o dan adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth yn dod o fewn yr eithriad a ddarperir gan Adran 44 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (gwaharddiadau ar ddatgelu). Mae adran 54(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi 'cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth' a thrwy hynny'n gwahardd datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â

pherson neu gorff arall a geir yn ystod archwiliad, ac eithrio o dan yr amodau a nodir mewn isadrannau (2). Nid yw'r un o'r amgylchiadau hynny'n cael eu bodloni yn yr achos hwn, felly gwaherddir datgelu a byddai'n drosedd. Felly, mae eithriad Adran 44 yn berthnasol. Gan ei fod yn eithriad llwyr, nid oes angen cymhwyso prawf budd y cyhoedd.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth hefyd yn wybodaeth bersonol y byddai datgelu gwybodaeth ohoni yn annheg ac yn torri'r egwyddorion diogelu data ac sydd felly wedi'i heithrio o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rwyf hefyd wedi ystyried datgelu gohebiaeth benodol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, ond mae'r wybodaeth yn dod o fewn cyfyngiadau Atodlen 2 Rhan 2 Paragraff 8, gan y byddai'n debygol o niweidio cyflawni swyddogaethau Archwilio yn briodol.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth